Gwneud cais am gyllid ymchwil

Cyflwynir galwadau am dendr trwy system dendro electronig ac maent yn cael eu llwytho'n awtomatig ar byrth hysbysebu tendr megis Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a *Tenders Electronic Daily*.

I dderbyn hysbysiadau e-bost am gyfleoedd caffael gallwch chi gofrestru fel cyflenwr.

Mae'r holl wybodaeth am gyfleoedd caffael, a contractau a thendrau sy'n bodoli eisoes ar gael i'r cyhoedd. Nid ydym ni'n cyhoeddi gwybodaeth neu wybodaeth fasnachol sensitif y gellir ei defnyddio i gael mantais gystadleuol annheg.

Sicrhau ansawdd yn ein hymchwil

Ynghyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol rydym ni wedi datblygu Cod Ymarfer i sicrhau bod gwyddoniaeth a thystiolaeth a gomisiynir gennym yn gyson o safon uchel a dibynadwy.

Gyda DEFRA, fe wnaethom ni gomisiynu Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig yn 2006 i archwilio sampl o'n prosiectau gwyddoniaeth a thystiolaeth yn erbyn darpariaethau'r Cod.

Dosbarthwyd y canfyddiadau o'r rhaglen archwilio ddwy flynedd a chafodd y Cod ei ddiwygio wedyn o ganlyniad i ganfyddiadau'r archwiliad. Amodau contract yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau (> https://www.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/conditionso…;